# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Hydref 2022

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat (09.15-10.00)**

Trafod Fframweithiau Cyffredin

Dogfennau atodol:

Materion allweddol

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.00)

## 2 Papurau i'w nodi

(10.00)

### 2.1 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(Tudalen 21)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb i adroddiad y Pwyllgor 'Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021'

**2.2 Llythyr gan Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

(Tudalennau 22 - 36)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor 'Codi'r bar: Sicrhau dyfodol y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu'

## 3 Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

(10.00-12.00) (Tudalennau 37 - 62)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir

Hannah Fernandez, Pennaeth Cyfarwyddiadau Polisi Diwygio Rheoli Tir, yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir

Dorian Brunt, Uwch Gyfreithiwr, Tîm Materion Gwledig

William (Bill) Cordingley, Cyfreithiwr

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.00)

## 5 Preifat

(12.00-12.20)

Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

27 Medi 2022

Annwyl Lesley,

Rwy'n siomedig nad yw'r Pwyllgor wedi cael ymateb eto i'n hadroddiad 'Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021'. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 8 Mehefin 2022 a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 14 Medi.

Y llynedd, penderfynwyd yn unfrydol yn y Cyfarfod Llawn y dylai'r Pwyllgor adolygu'r Rheoliadau hyn ar fyrder. Mae brys y cynnig, a'r ffaith iddo gael ei basio'n unfrydol, yn tanlinellu pwysigrwydd y Rheoliadau hyn.

Rwy'n deall bod cyfnod o alaru efallai wedi peri i'r ymateb gael ei oedi rywfaint, ond mae'r Llywodraeth wedi cael y cyfan o doriad yr haf i baratoi. Byddwn wedi disgwyl i'r ymateb gyrraedd erbyn 20 Medi fan bellaf.

Byddwn yn ei gwerthfawrogi pe bai'r Llywodraeth yn cyhoeddi ei hymateb ar unwaith ac yn egluro'r rheswm dros yr oedi.

Cofion cynnes,

Paul Davies

Paul Davies MS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 2.2

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/2476/22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
seneddeconomy@senedd.wales

7 Medi 2022

Annwyl Paul,

Rydym yn ysgrifennu atoch mewn perthynas ag adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o'r enw 'Codi'r Bar: Diogelu Dyfodol y Sectorau Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu'.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am ystyried y mater hwn ac am gyhoeddi'r adroddiad.

Amgaeaf ymateb ysgrifenedig oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys ymatebion i 18 o'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi'u cyflwyno.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad**
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

**'Codi'r Bar: Sicrhau dyfodol y sectorau Lletygarwch, Twristiaeth a Manwerthu'**

**Argymhelliad 1**

Dylai Gweinidogion Cymru nodi'n fanwl pa newidiadau i ardrethi annomestig sy'n cael eu hystyried i ddarparu'r 'amgylchedd cefnogol' ar gyfer y sector manwerthu yng Nghymru y galwodd y Fforwm Manwerthu amdano yn ei ddatganiad sefyllfa ym mis Mawrth 2022

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £116m o gymorth ardrethi annomestig wedi'i dargedu i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch drwy gydol 2022-23. Mae'r cymorth hwn yn ychwanegol i'n pecyn presennol gwerth £240 miliwn o ryddhad ardrethi parhaol y mae'r sector manwerthu hefyd yn cael budd ohono. Mae hyn yn adeiladu ar y cymorth a gafwyd ers dechrau'r pandemig a roddodd gymorth o 100% i'r rhan fwyaf o fanwerthwyr ar gyfer 2020-21 a 2021-22. Drwy gydol y pandemig, mae ein pecynnau rhyddhad ardrethi wedi canolbwyntio ar y sectorau hynny yr effeithiwyd arnynt waethaf, gan ddiogelu swyddi a busnesau ledled Cymru.

Yn 2021-22, gwnaed y penderfyniad i rewi'r lluosydd ardrethi annomestig. Roedd hyn er mwyn atal cynnydd mewn biliau ardrethi ar gyfer talwyr ardrethi a rhoi cymorth parhaus i fusnesau yn ystod y cyfnod heriol hwn. Ar gyfer 2022-23, cynhaliodd Llywodraeth Cymru'r dull hwn, gan gydnabod effaith barhaus pandemig y coronafeirws ar fusnesau a sefydliadau eraill.

Ar 29 Mawrth, sefydlodd Llywodraeth Cymru raglen i ddiwygio ardrethi annomestig i'w chyflwyno dros y pedair blynedd nesaf. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru decach, gwyrddach a chryfach. Mae'r egwyddorion hyn yn sail i unrhyw newidiadau posibl i'r system ardrethu annomestig. Rydym wedi gwrando ar alwadau gan randdeiliaid ar gyfer ailbrisiadau amlach, er mwyn sicrhau bod y sylfaen drethu yn adlewyrchu'r amodau economaidd a'r amgylchedd y mae busnesau'n gweithredu ynddo. Ein nod yw cyflwyno deddfwriaeth er mwyn symud tuag at gylch ailbrisio bob tair blynedd, yn unol â rhannau eraill o'r DU, ac rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer cylchoedd ailbrisio byrrach. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r posibilrwydd o leihau'r bwlch rhwng y dyddiad prisio a'r adeg y daw rhestr ardrethu newydd i rym.

Byddwn hefyd yn adolygu ein cynlluniau rhyddhad ardrethi. Mae rhyddhad ardrethi wedi chwarae rhan hanfodol yn cefnogi busnesau a sefydliadau eraill drwy gydol y pandemig ac mae lefel gyffredinol y rhyddhad a roddir i dalwyr ardrethi wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Ond mae'n amser camu'n ôl ac adolygu ein holl gynlluniau presennol i sicrhau eu bod yn addas at y diben a'u bod yn rhoi cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd ein hadolygiad yn ystyried yr amrywiaeth o ardrethi, lefel y cymorth, y ffordd y caiff ardrethi eu targedu ac am ba hyd y byddant yn para. Byddwn yn parhau i ystyried baich ardrethi annomestig ar sectorau penodol a'r modd y mae'n rhyngweithio â threthi eraill.

**Goblygiadau ariannol**

Mae'r costau'n fforddiadwy o fewn y gyllideb bresennol.

**Argymhelliad 2**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru ystyried effaith anghymesur y pandemig a phwysau costau byw ar y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu mewn perthynas â'r ailbrisio ardrethi annomestig a ddaw i rym ym mis Ebrill 2023. |

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Daw'r ailbrisiad ardrethi annomestig nesaf yng Nghymru i rym ar 1 Ebrill 2023 a bydd yn seiliedig ar werth eiddo ar 1 Ebrill 2021. Gwnaethom symud y dyddiad ailbrisio i 2023 o ganlyniad i'r pandemig; mae hyn yn golygu y bydd y gwerthoedd ardrethol y mae biliau ardrethi yn seiliedig arnynt yn adlewyrchu effaith COVID-19 yn well. Nid yw'r newidiadau mewn gwerth ardrethi o ganlyniad i ailbrisiad mis Ebrill 2023 yn hysbys eto.

Cynhelir y broses o ailbrisio hereditamentau annomestig yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyhoeddi rhestr ardrethi drafft newydd erbyn diwedd y flwyddyn hon. Yn dilyn ailbrisiad ardrethi annomestig 2023, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r effaith ar y sylfaen drethu ac yn ystyried a yw cymorth trosiannol yn briodol ar gyfer y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol**

Mae'r costau'n fforddiadwy o fewn y gyllideb bresennol.

**Argymhelliad 3**

| |
|---|
| Dylai Gweinidog yr Economi barhau â'r ddeialog gyda Thrysorlys EM ar newidiadau posibl yn y dyfodol i lefel TAW i gefnogi'r adferiad bregus yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu, yn enwedig yn sgil y pwysau costau byw cynyddol ar fusnesau yn y sectorau hynny. |

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r argyfwng costau byw. Tynnodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol sylw at y ffaith bod angen rhagor o gamau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau sylweddol mewn cymorth i fusnesau mewn cyfarfod o Weinidogion Cyllid y DU ar 15 Mehefin ac ailadroddodd y pwyntiau hyn ym Mhwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol y DU ar 29 Mehefin. O ganlyniad i'r sylwadau hyn, cytunwyd y dylai swyddogion o lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gydweithio dros yr haf i drafod y modd y gall Llywodraeth y DU ddefnyddio'r amrywiaeth o ddulliau sydd ar gael iddi i roi cymorth ehangach i fusnesau, gan gynnwys y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu.

Aeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol hefyd, ar y cyd â Gweinidogion Cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon, ati i ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ar 15

Gorffennaf i nodi rhai o'r meysydd allweddol sydd angen sylw fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Cyllideb nesaf y DU, gan gynnwys cymorth i fusnesau.

Ymysg y pwyntiau a wnaed yn y llythyr, nodwyd nad yw'r argyfwng costau byw wedi'i ddosbarthu'n gyfartal, ac y dylid canolbwyntio ar roi cymorth wedi'i dargedu i'r rheini yr effeithiwyd yn andwyol arnynt, yn hytrach na lleihau trethi y gyffredinol. Eglurwyd hefyd yn y llythyr na ddylai unrhyw doriadau treth arwain at reolaethau tynnach ar wariant a fydd yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd eisoes yn wynebu pwysau enfawr.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 4**

| |
|---|
| Dylai Gweinidog yr Economi nodi a ellir rhoi hyblygrwydd ychwanegol i fusnesau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu wrth ad-dalu benthyciadau i Lywodraeth Cymru neu Fanc Datblygu Cymru yn sgil y pwysau ariannol parhaus y mae’r sectorau hyn o economi Cymru yn eu hwynebu. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae Banc Datblygu Cymru yn sefydliad conglfaen ar gyfer buddsoddi a chefnogi busnesau.  O ystyried ei arbenigedd cynyddol eang mae mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd y byddwn yn anochel yn eu hwynebu. Mae rhagolygon y farchnad bresennol yn hynod heriol ac mae'r Banc Datblygu wedi cydnabod bod methiant y farchnad yn debygol o waethygu, a gyda hynny y galw am gyllid sy'n cael ei gynnig gan y Banc. Mae holl gwsmeriaid y Banc Datblygu yn elwa o weithredwr portffolio penodol y gallant gysylltu â hwy i drafod eu hanghenion a bydd y Banc Datblygu yn parhau i weithio gyda busnesau i ddod o hyd i atebion pan fydd anawsterau'n codi. Mae pob busnes yn unigryw a bydd y Banc Datblygu yn defnyddio ei ddisgresiwn a'r hyblygrwydd sylweddol sydd ganddo gan ei fod yn ymateb i anghenion busnesau yr effeithir arnynt fwyaf gan bwysau ariannol parhaus. Ymhlith yr opsiynau y gall y Banc eu harchwilio gyda busnesau mae seibiant o ad-dalu dyledion neu ail-broffilio dyledion i ddod â chostau misol i lawr.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5**

| |
|---|
| Dylai Gweinidog yr Economi ystyried pa gymorth ychwanegol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf y gellir ei ddarparu i’r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae Croeso Cymru yn rhoi cymorth buddsoddiad cyfalaf i fusnesau sy'n gweithredu yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch yn bennaf drwy dair sianel buddsoddi: Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth, Cymru sy'n werth £50m; Cronfa Buddsoddi Cyfalaf

Strategol flynyddol sy'n werth £2.5m; a rhaglen flynyddol Y Pethau Pwysig sy'n werth £2.5m.

Mae Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru sy'n werth £50m, a ddarperir drwy Fanc Datblygu Cymru, yn rhoi cymorth buddsoddi sy'n cyfuno benthyciadau â grant ac a all gynnig telerau ad-dalu o hyd at bymtheg mlynedd sy'n hanfodol er mwyn cefnogi cynlluniau buddsoddi hirdymor yn y sector gan fod hyn yn galluogi busnesau, er enghraifft rhai y mae materion tymoroldeb yn effeithio arnynt, i leihau ad-daliadau misol.

Mae'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol sy'n werth £2.5m yn rhoi arian grant a'i nod yw cefnogi buddsoddiadau strategol allweddol mewn prosiectau na fyddent yn mynd yn eu blaen fel arall heb y cymorth hwn.

Mae'r Pethau Pwysig yn gronfa gyfalaf sy'n werth £2.5m i gyflawni gwelliannau sylfaenol ar raddfa fach i'r seilwaith twristiaeth ledled Cymru i sicrhau bod ymwelwyr yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy ymhob agwedd ar eu harhosiad.

Pecyn cymorth wedi'i gydlynu yw Trawsnewid Trefi, sy'n darparu'r buddsoddiad adfywio craidd yng nghanol trefi. Mae'n canolbwyntio ar dwf cynaliadwy trefi drwy gefnogi datblygiadau sy'n rhan o gynlluniau creu lle ar gyfer pob tref.

Ers mis Mawrth 2020, darparwyd £136m i awdurdodau lleol ledled Cymru gyda £100m ychwanegol wedi'i ymrwymo ar gyfer 2022-25, er mwyn adfywio ein trefi a sicrhau eu bod yn tyfu'n gynaliadwy drwy: ailddefnyddio adeiladau segur; gwella'r amrywiaeth o wasanaethau mewn trefi; creu mannau gwyrdd a mynediad gwell. Mae Trawsnewid Trefi yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf i drawsnewid canol trefi, a all gefnogi'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Ystyrir bod maint y cronfeydd hyn yn briodol o ran maint ar hyn o bryd yn seiliedig ar lefelau galw, er caiff y sefyllfa ei hadolygu'n gyson fel rhan o broses fonitro cyllideb cyfalaf yn ystod y flwyddyn a'r broses flynyddol o bennu cyllidebau.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru er bod y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n gyson fel rhan o broses monitro cyllideb cyfalaf yn ystod y flwyddyn a'r broses flynyddol o bennu cyllidebau.

**Argymhelliad 6**

| |
|---|
| Ar ôl cyhoeddi gweledigaeth strategol hirddisgwyliedig ar gyfer y sector manwerthu, dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer y cynllun cyflawni cysylltiedig i gefnogi’r sector; sut y caiff gweithgareddau eu hariannu i ddiwallu anghenion a nodwyd gan y Fforwm Manwerthu; ac i ba raddau y bydd y rhain yn cael eu talu o gyllid presennol neu gyllid newydd. Yna, dylai’r Pwyllgor gael adroddiad arall ar gynnydd y cynllun cyflawni manwerthu manwl hwnnw chwe mis ar ôl ei gyhoeddi. |

**Ymateb: Derbyn**

Nawr ein bod wedi cyhoeddi'r weledigaeth strategol ar gyfer y sector manwerthu, rydym yn gweithio gyda'r Fforwm Manwerthu i nodi'r camau gweithredu a'r ymyriadau penodol a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r cynllun gweithredu yn yr hydref ac y bydd yn cynnwys camau gweithredu i'r sector eu perchenogi a'u cyflawni ynghyd â chamau gweithredu ar gyfer y Llywodraeth. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd**.**

**Goblygiadau ariannol**

Byddai angen i unrhyw oblygiadau ariannol gael eu bodloni o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 7**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad manwl i'r Pwyllgor o ddyraniadau cyllideb 2022-23 i gefnogi twristiaeth. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cynllun Busnes hwn ar gyfer 2022-23 yn cynnig cydbwysedd rhwng gwariant cyfalaf (£5m) a refeniw (£11.962m) i gefnogi busnesau'n uniongyrchol drwy'r cam adfer pwysig sydd o'n blaen a diogelu'r sector ar gyfer y dyfodol, ynghyd â chyflwyno dulliau cyfathrebu pwysig a arweinir gan ymddygiad yn y byrdymor i'r tymor canolig i gadw cymunedau'n ddiogel, a marchnata gweithgarwch cynllunio er mwyn rhoi sylfaen cadarn ar gyfer ymgyrchoedd marchnata parhaus, yn y dyfodol, i ysgogi'r galw yn y tymhorau sydd fel arfer yn dawelach bob pen i'r prif dymor.

Nod y rhaglen cyfalaf datblygu twristiaeth yw datblygu a chefnogi rhaglenni a phrosiectau pwysig a fydd yn annog mwy o ymwelwyr i ddod i Gymru ac yn gwella'r profiad i ymwelwyr yng Nghymru.

| Rhaglen Gyfalaf | Cyllid |
|---|---|
| Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol | £2.5m |
| Y Pethau Pwysig | £2.5m |
| **Cyfanswm** | **£5m** |

| Rhaglen refeniw | Cyllid |
|---|---|
| **Marchnata** | |
| Marchnata Croeso Cymru | £4.753m |
| Partneriaethau a Llwyfannau Brand Cymru Wales | £3.325m |
| Marchnata Busnesau | £2.014m |
| Costau staff rhaglenni | £0.72m |
| **Datblygu twristiaeth** | |
| Data a dealltwriaeth | £0.4m |
| Ymgyrch Effeithlonrwydd Adnoddau | £0.2m |
| Datblygu rhanbarthol a datblygu cynnyrch | £0.3m |

| | |
|---|---|
| Datblygu cynllun Trwyddedu Statudol | £0.1m |
| Datblygu sgiliau | £0.06m |
| Sicrhau Ansawdd / Graddio | £0.04m |
| Ymgysylltu â'r sector | £0.05m |
| **Cyfanswm** | **£11.962m** |

Mae meysydd eraill o fewn Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi twristiaeth Er enghraifft, mae prinder sgiliau yn fater allweddol i'r diwydiant a rydym yn annog a chyfeirio busnesau at wybodaeth a chefnogaeth i helpu i hyfforddi a datblygu staff, gan gynnwys tynnu sylw at fanteision cynlluniau megis Prentisiaethau a'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg. Rydyn ni'n creu 125,000 o brentisiaethau dros dymor y Senedd hon ac yn buddsoddi £366m dros y dair blynedd nesaf yn y rhaglen brentisiaethau. Bydd llawer o'r prentisiaethau hyn yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Mae Croeso Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda chefnogaeth i fusnesau a chydweithwyr rhanbarthol i ddeall y cysylltiadau rhwng datblygu twristiaeth a buddsoddiad rhanbarthol ar lefel cyrchfan. Ar lefel cynllun gall fod cysylltiadau cyffredin hefyd rhwng cronfeydd megis sicrhau bod cronfeydd seilwaith twristiaeth ar raddfa fach (e.e. 'Y Pethau Pwysig') yn ategu buddsoddiadau rhanbarthol ac yn adfywio eraill, megis y fenter 'Trawsnewid Trefi' a gyflwynir gan dîm Busnes a Rhanbarthau. Drwy weithio ar y cyd, a deall buddsoddiad, ar lefel ranbarthol a sectoraidd, gallwn ddeall yn well yr hyn sydd ei angen ar fusnesau er mwyn tyfu.

Mae ystod o feysydd polisi a gwariant eraill hefyd yn darparu cymorth i'r sectorau Twristiaeth, Lletygarwch a Manwerthu, er enghraifft Prentisiaethau, Addysg Bellach ac Addysg Uwch gan yr Is-adran Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, ynghyd â chefnogaeth a chyngor i fusnesau gan Busnes Cymru. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd ar draws y sefydliad i sicrhau bod y sector yn cael ei gyfeirio at yr holl gymorth sydd ar gael ac yn gallu manteisio ar unrhyw ffrydiau ariannu priodol.

**Goblygiadau ariannol**
Dim.

**Argymhelliad 8**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu’n fanwl ei rhesymeg dros y cynnydd yn nifer y diwrnodau o’r flwyddyn y mae’n rhaid i eiddo hunanddarpar fod ar gael i’w osod i 252, a’r diwrnodau y caiff ei osod i 182, fel y nodir yng Ngorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio Diffiniad o Eiddo Domestig) 2022. |

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd, gall eiddo sydd ar gael i'w gosod am o leiaf 140 o ddiwrnodau ac sy'n cael eu gosod am o leiaf 70 o ddiwrnodau mewn gwirionedd, o fewn cyfnod o 12 mis, fod yn agored i ardrethi annomestig yn hytrach na threth gyngor. Bydd y trothwyon hyn yn cynyddu o 1 Ebrill 2023 i fod ar gael i'w gosod am o leiaf 252 o ddiwrnodau a'u bod yn cael eu gosod am o leiaf 182 o ddiwrnodau mewn gwirionedd. Bydd ehangu'r trothwyon gosod yn rhoi arwydd cliriach bod yr eiddo dan sylw yn cael eu gosod yn rheolaidd fel rhan o fusnesau llety gwyliau dilys a'u bod yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi leol.

Nod y newid yn y meini prawf yw annog mwy o ddefnydd o'r eiddo a helpu i sicrhau bod eiddo gwag neu eiddo na chânt eu defnyddio ddigon yn cael eu defnyddio eto. Os caiff eiddo eu defnyddio fel ail gartref yn bennaf, bydd angen talu treth gyngor ar eu cyfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd safbwynt polisi mai dim ond os bydd eiddo hunanddarpar yn cael eu defnyddio at ddibenion busnes am y rhan fwyaf o'r flwyddyn y cânt eu dosbarthu fel eiddo annomestig. Fel hyn, gallant wneud cyfraniad sylweddol i'w heconomi leol ac i fywiogrwydd eu cymuned.

Dylid ystyried y newid mewn deiliadaeth yng nghyd-destun y pecyn ehangach o fesurau sy'n llunio ein dull triphlyg o fynd i'r afael ag effaith ail gartrefi ac eiddo gosod gwyliau ar gymunedau mewn rhannau o Gymru. Pan fydd perchenogion ail gartrefi yn gweithredu ar sail achlysurol a dros dro o fewn y sector hunanddarpar, byddant mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r un busnesau dilys hyn. Gallai perchenogion ail gartrefi a llety hunanddarpar roi nifer o newidiadau ymddygiadol posibl ar waith mewn ymateb i'r newidiadau hyn. Perchenogion unigol fydd yn gyfrifol am ystyried pa ddull gweithredu i'w gymryd.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod rhai eiddo hunanddarpar wedi'u cyfyngu gan amodau cynllunio sy'n eu hatal rhag cael eu meddiannu'n barhaol fel prif fan preswylio rhywun. Mae rheoliadau ar wahân yn nodi dosbarthiadau o eiddo na ellir codi premiwm treth gyngor ar eu cyfer. Telir treth gyngor ar y gyfradd safonol yn unig ar gyfer eiddo o'r fath. O ystyried y newidiadau i'r trothwyon ar gyfer eiddo hunanddarpar, rydym yn archwilio a oes angen diwygio'r rheoliadau i gyfyngu'r atebolrwydd i dalu treth gyngor ar gyfer rhai eiddo hunanddarpar sy'n agored i gyfyngiadau cynllunio. Rydym am bwysleisio mai nod unrhyw newidiadau fyddai cyfyngu'r atebolrwydd i dalu treth gyngor ar gyfer eiddo penodol, nid ei gynyddu.

Ceir rhagor o fanylion yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn: SL(6)203 - Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio’r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 (senedd.cymru)

**Goblygiadau ariannol**

Dim.

**Argymhelliad 9**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi’r sylfaen dystiolaeth a ystyriodd wrth benderfynu cyflwyno ardoll dwristiaeth leol ar hyn o bryd. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae trafodaethau ynghylch ardoll ymwelwyr yn dyddio'n ôl i gyfnod y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham) a sefydlwyd yn 2008 i adolygu cyllid Llywodraeth Cymru ar y pryd ac i ystyried datganoli pwerau ariannol ymhellach. Asesodd y Comisiwn yr achos dros gynyddu pwerau trethu a benthyca Cymru. Un o'r trethi a ystyriwyd gan y Comisiwn oedd treth dwristiaeth. Mae adroddiad y Comisiwn yn nodi'r dreth hon fel un o'r trethi niferus y gellid eu cyflwyno yng Nghymru, gan nodi y byddai'n gyfle i wrthbwyso'r costau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

Mae trethi eraill a nodwyd gan Gomisiwn Haltham wedi'u cyflwyno ers hynny. Rhoddodd Deddf Cymru 2014 a 2017 bwerau trethu i Gymru sydd wedi arwain at greu'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi ac at ddatganoli treth incwm yn rhannol. Ailddechreuodd y sgyrsiau ynghylch ardoll ymwelwyr yn 2017 gyda galwad gan y cyhoedd am drethi newydd yng Nghymru a gafodd ymateb cryf. Rhoddwyd ardoll ymwelwyr ar restr fer fel treth i'w chyflwyno o'r rhestr hon o syniadau a luniwyd gan y cyhoedd yng Nghymru a chynhaliwyd dadl ddilynol yn y Senedd i archwilio'r syniad ymhellach. Defnyddir ardollau ymwelwyr fel mater o drefn ledled y byd gan arwain at effeithiau cadarnhaol i gymunedau lleol, busnesau ac ymwelwyr. Maent yn sicrhau llif refeniw ychwanegol i'r ardaloedd hynny sy'n eu defnyddio, a chaiff ei fuddsoddi'n ôl yn yr ardaloedd lleol.

Datblygwyd gwaith i gyflwyno ardoll ymwelwyr yn ôl disgresiwn i awdurdodau lleol drwy un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu pan ffurfiwyd Llywodraeth newydd Cymru yn 2021. Lluniodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru gytundeb cydweithio i gyflwyno ymrwymiadau polisi wedi'u diffinio sy'n cyd-fynd â buddiannau cyffredin. Mae'r gwaith ar yr ardoll ymwelwyr yn mynd rhagddo drwy'r cytundeb hwn.

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn datblygu'n barhaus, a rhoddir allbwn ymchwil a thystiolaeth ychwanegol i'r Pwyllgor ar adegau priodol.

Byddai unrhyw gynigion am ardoll yn cymryd blynyddoedd i'w ddatblygu a'i weithredu a byddai'n destun craffu a chymeradwyaeth gan y Senedd yn y pen draw. Bydd pob safbwynt yn cael ei ystyried drwy'r broses ymgynghori.

**Goblygiadau ariannol**

Dim

**Argymhelliad 10**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru rannu canlyniadau’r tri phrosiect ymchwil ar yr Ardoll twristiaeth â’r Pwyllgor cyn gynted â phosibl. |

**Ymateb: Derbyn**

Comisiynwyd dau ddarn o ymchwil gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflwyno unrhyw ardoll ymwelwyr.

I ddechrau, Ymchwil ar yr Ymateb i Ardoll Dwristiaeth yng Nghymru. Bydd y prosiect hwn yn mynd ati yn systematig i adolygu ac asesu'r dystiolaeth ar ymatebion ymwelwyr a chyflenwyr i'r broses o roi ardollau twristiaeth ar waith mewn gwledydd eraill. Bydd y prosiect yn rhoi dealltwriaeth o effeithiau economaidd posibl yr ardoll ymwelwyr yng Nghymru, gan gefnogi'r broses o fodelu refeniw a chyfrannu at yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr ardoll dwristiaeth.

Yn ail, Trosolwg o'r Systemau Treth sy'n wynebu'r Economi Ymwelwyr mewn Gwledydd Dethol. Bydd y prosiect hwn yn rhoi trosolwg o'r systemau treth gwahanol sy'n wynebu'r economi ymwelwyr yn gyffredinol, a'r sector llety yn benodol mewn gwledydd sydd â nodweddion economaidd a thwristiaeth tebyg i Gymru. Bydd y prosiect yn llywio'r gwaith o gynllunio'r ardoll ymwelwyr drwy ei roi o fewn y cyd-

destun trethiant ehangach ar draws lleoliadau cymharol ac yn cyfrannu at yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr ardoll ymwelwyr.

Y trydydd dadansoddiad a gomisiynwyd gan y SYG yw sefydlu llinell sylfaen o enedigaethau a marwolaethau darparwyr llety ymwelwyr ledled Cymru er mwyn cefnogi unrhyw werthusiad o'r broses o gyflwyno ardoll ymwelwyr yn y dyfodol.

Caiff yr adroddiadau ymchwil a gomisiynir eu cyhoeddi'n llawn a chânt eu cynnal yn unol â safonau Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth. Rydym yn hapus i rannu'r canlyniadau hyn â'r Pwyllgor fel yr argymhellwyd.

**Goblygiadau ariannol**

Dim

**Argymhelliad 11**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi’n fanwl y dull arfaethedig o ymgynghori ar y ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer ardoll dwristiaeth leol arfaethedig. |

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Caiff ymgynghoriad llawn ei lansio ym mis Medi 2022 ar gynigion polisi ar gyfer ardoll ymwelwyr. Ein nod yw cynnal cyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn sicrhau y caiff amrywiaeth eang o leisiau eu clywed drwy'r ymgynghoriad. Caiff yr ymgynghoriad ei hyrwyddo gan ddefnyddio rhwydweithiau dosbarthu a chyfathrebu presennol i annog cyfranogiad ac ymatebion. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal sesiynau rhithwir y gall partïon â diddordeb fynd iddynt a rhoi adborth.

Caiff y camau nesaf eu rhannu yn dilyn y dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn a bydd yn bleser gennym roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn fanylach bryd hynny.

**Goblygiadau ariannol**

Dim

**Argymhelliad 12**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae’r heriau y mae’r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu yn eu hwynebu yn cael eu hystyried wrth ddatblygu ei dull gweithredu polisi a’i hymyriadau ynghylch ail gartrefi ac ardoll dwristiaeth leol. Byddai’r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar ganfyddiadau cynllun peilot Dwyfor, ac i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriad ar gyfer y camau nesaf; ei hamserlenni ar gyfer newidiadau polisi yn y dyfodol; a’i dull o asesu’r effeithiau economaidd ar y sectorau hynny. |

**Ymateb: Derbyn**

Caiff pob ymyriad polisi ei gefnogi gan asesiad effaith manwl sy'n cynnwys ystyried effeithiau ar y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol wrth i'r broses o ddatblygu polisïau fynd rhagddi. Rydym yn defnyddio

amrywiaeth eang o ffynonellau data a thystiolaeth drwy ein gwaith asesu effaith ac yn comisiynu ymchwil annibynnol lle y bo'n berthnasol i gefnogi'r broses hon.

Caiff asesiad effaith rheoleiddiol rhannol ei gyhoeddi ynghyd â'r ymgynghoriad ar yr ardoll ymwelwyr ym mis Medi. Mae hyn yn nodi costau, manteision ac anfanteision amrywiaeth o opsiynau polisi i gefnogi unigolion a grwpiau wrth iddynt ymateb i'r ymgynghoriad. Asesiad effaith rhannol yw hwn am ei fod yn seiliedig ar amrywiaeth o opsiynau i ymgynghori arnynt. Byddai asesiad effaith llawn yn cael ei ddatblygu ynghyd ag unrhyw ddewisiadau polisi terfynol. Ein bwriad yw comisiynu gwaith ymchwil pellach yn archwilio effeithiau economaidd posibl ymwelydd yn fanylach wrth i ni lunio polisi terfynol. Gan ein bod yn cynnig y byddai pwerau ardoll ymwelwyr yn ôl disgresiwn i awdurdodau lleol, rydym yn rhagweld y byddai asesiadau effaith lleol yn cefnogi gwneud penderfyniadau'n lleol.

Byddem yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynllun peilot yn Nwyfor, a fydd yn profi nifer o ymyriadau sydd â'r nod o reoli niferoedd yr ail gartrefi a lety gwyliau byrdymor yn y dyfodol ac yn profi effaith hynny ar fforddiadwyedd gwell i bobl allu byw'n fforddiadwy yn eu cymunedau cartref (p'un a ydynt yn prynu neu'n rhentu cartrefi).

Mae gwerthusiad annibynnol o'r cynllun pensiwn yn cael ei gomisiynu. Fodd bynnag, mae ansawdd ac argaeledd data i fonitro effeithiau yn parhau i gael eu harchwilio ac mae angen i'r gwerthusiad allu defnyddio ffynonellau data priodol o ansawdd uchel. Lle y bo'n ymarferol, bydd hyn yn cynnwys effeithiau ar yr economi ymwelwyr a gwneir gwaith archwilio pellach yn hynny o beth.

Bydd ein newidiadau i drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar yn sicrhau bod eiddo a ddefnyddir fel llety gwyliau yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi leol. Nod y newidiadau yw annog mwy o ddefnydd o'r eiddo a helpu i sicrhau bod eiddo gwag neu eiddo nas defnyddir ddigon yn cael eu defnyddio eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd safbwynt polisi mai dim ond os bydd eiddo hunanddarpar yn cael eu defnyddio at ddibenion busnes am y rhan fwyaf o'r flwyddyn y cânt eu dosbarthu fel eiddo annomestig. Fel hyn, gallant wneud cyfraniad sylweddol i'w heconomi leol ac i fywiogrwydd eu cymuned. Os defnyddir eiddo fel ail gartrefi yn bennaf, byddant yn wneud cyfraniad drwy dreth gyngor. Dylid ystyried yr her i fusnesau hunanddarpar dilys fodloni'r cynnydd yn y meini prawf deiliadaeth yng nghyd-destun y pecyn ehangach o fesurau sy'n llunio ein dull triphlyg o fynd i'r afael ag ail gartrefi ac eiddo gosod gwyliau ar gymunedau mewn rhannau o Gymru. Pan fydd perchenogion ail gartrefi yn gweithredu'n achlysurol a dros dro o fewn y sector hunanddarpar, byddant mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r un busnesau dilys hyn.

**Goblygiadau ariannol**

O ran ail gartrefi a chynllun peilot Dwyfor, nid oes gan yr argymhelliad unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes yn mynd rhagddo.

**Argymhelliad 13**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi’n fanylach lle y mae’n gweld cwmpas, yn ei chynllun i ehangu’r rhaglen brentisiaethau, ar gyfer llwybrau gyrfa lefel uwch ym maes twristiaeth a lletygarwch, gan gynnwys ar gyfer gradd-brentisiaethau.

**Ymateb: Derbyniwyd mewn egwyddor**

Er mwyn tyfu ein heconomi a swyddi o ansawdd, rydym yn creu 125,000 o brentisiaethau dros gyfnod y Senedd hon ac yn buddsoddi £366m dros y tair blynedd nesaf yn y rhaglen brentisiaeth. Ni chaiff llwyddiant ei ddiffinio'n llwyr mewn termau niferoedd uwch – rydym yn ymrwymedig i wneud rhagor o welliannau i'n rhaglen. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu'r broses o ehangu prentisiaethau uwch mewn pynciau STEM er mwyn creu cenhedlaeth newydd o weithwyr proffesiynol i ysgogi arferion arloesol a rhoi hwb i lefelau cynhyrchiant.

Byddwn yn cydbwyso'r dull hwn gan ganolbwyntio ar yr economi sylfaenol, mewn meysydd fel: adeiladu, lletygarwch, gofal plant, diwylliant a thwristiaeth ac iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd dull o'r fath yn helpu i ddiwygio sgiliau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ein helpu i adeiladu Cymru unedig a chysylltiedig sy'n fwy cynaliadwy. Fel y cyfryw, byddwn yn ymateb i ddiffyg sgiliau a bylchau mewn sectorau blaenoriaeth sy'n hanfodol i wella cynhyrchiant a thwf economaidd, gan gefnogi ein dyheadau sero net, yr economi sylfaenol a gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn adolygu cynnwys fframweithiau prentisiaeth yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn berthnasol i gyflogwyr a dysgwyr fel ei gilydd. Adolygwyd fframweithiau lletygarwch yn 2021-22, gan gynnwys y prentisiaethau uwch mewn Rheoli Arlwyo a Lletygarwch Proffesiynol. Caiff fframweithiau Gwasanaethau Teithio eu hadolygu yn 2022-23. Ni cheir prentisiaeth uwch mewn Teithio a Thwristiaeth ar hyn o bryd; bydd y grŵp llywio Gwasanaethau Teithio yn archwilio'r angen am lwybr lefel 4 er nad oes unrhyw gymwysterau (a ariennir yn gyhoeddus) dynodiad lefel 4 yn y maes ar hyn o bryd.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda CCAUC, y sector addysg uwch a phartneriaid eraill i bennu blaenoriaethau ar gyfer ehangu. Rydym yn parhau i weithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill i benderfynu sut i wneud y gorau o'r adenillion o'n buddsoddiadau.

**Goblygiadau ariannol**

Dim

**Argymhelliad 14**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am Aelodaeth y Fforwm Economi Ymwelwyr, gan gynnwys sut y mae'n cynnwys perchen-weithredwyr llai yn uniongyrchol, a nodi i ba raddau y mae bwrw ymlaen â chanlyniadau gwaith teg yn rhan o'i chylch gorchwyl. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan Fforwm yr Economi Ymwelwyr gynrychiolwyr o'r canlynol; Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain, y Sector Digwyddiadau, yr Economi Liw Nos, Grŵp Stadia-Cardiff City, cynrychiolydd TIC-Cymru, Cyngres yr Undebau Llafur, Unite, Lletygarwch y DU, Cynghrair Twristiaeth Cymru, Grŵp Priodasau, Clwstwr Bwytai Annibynnol Cymru, CLlLC, Visit Britain - cynrychiolydd Cymru, Fforwm Twristiaeth

Rhanbarthol De Cymru, Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae llawer o'r cynrychiolwyr yn berchennog-weithredwyr yn y sectorau maent yn eu cynrychioli.

Mae Cylch Gorchwyl y Fforwm yn cynnwys yr amcan i ystyried dulliau arloesol o gefnogi'r sector economi ymwelwyr, gan gynnwys mewn perthynas â phrosesau recriwtio, hyfforddi a datblygu gweithlu, a sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd ag egwyddorion gwaith teg.

**Goblygiadau ariannol**

Dim

**Argymhelliad 15**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymgysylltiad â phartneriaid yn y Fforwm Economi Ymwelwyr cystal ag un y Fforwm Manwerthu, gan adeiladu ar arferion gorau a gwersi a ddysgwyd o brofiad partneriaeth gymdeithasol. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae dull gweithredu Fforwm yr Economi Ymwelwyr yn cyd-fynd â dull gweithredu partneriaeth gymdeithasol llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur yn cydweithio i gyflawni uchelgeisiau a rennir a mynd i'r afael â phryderon cyffredin.

Ymysg amcanion y Fforwm mae annog gwaith partneriaeth a chydweithio rhwng bob sector o'r economi ymwelwyr ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i gefnogi'r broses o gyflawni strategaeth genedlaethol ‘Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020/25’.

Bydd y Fforwm yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i nodi, hyrwyddo a rhannu dulliau i wella'r profiad o weithio yn yr economi ymwelwyr, fel bod egwyddorion gwaith teg yn cael eu normaleiddio ym mhob rhan o'r sector a bod llwybrau gyrfa â dilyniant cyflog yn cael eu datblygu.

**Goblygiadau ariannol**

Dim

**Argymhelliad 16**

| |
|---|
| O gofio’r pryderon a gododd cynrychiolwyr busnes ac undebau llafur ynghylch diffyg dealltwriaeth o’r Contract Economaidd, dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o esbonio a hyrwyddo’r contract, a nodi sut y mae’n bwriadu gwella cyfathrebu fel rhan o’i gwaith i gryfhau’r contract. |

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n eang ar y gwaith i adolygu a diwygio'r Contract Economaidd, gan gynnwys â phartneriaethau cymdeithasol rhwng cyflogwyr ac

undebau llafur, ac yn cydnabod bod angen gwneud mwy i esbonio a hyrwyddo'r contract. Rydym yn datblygu fframwaith safonau i bennu disgwyliadau clir a naratif i hyrwyddo arferion busnes gwell ar draws pedwar piler cysylltiedig y contract.

**Goblygiadau ariannol**

Dim

**Argymhelliad 17**

| |
|---|
| Er ei fod yn cydnabod nad offeryn cydymffurfio yw'r Contract Economaidd, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu mecanweithiau i adolygu contractau enghreifftiol, ac yn nodi cynlluniau eraill sydd ganddi i gryfhau'r gwaith monitro a gorfodi fel rhan o'i gwaith ar gryfhau'r contract. |

**Ymateb:  Derbyn mewn egwyddor**

Er nad yw'r Contract Economaidd yn offeryn cydymffurfio, rydym yn ymrwymedig i atgyfnerthu'r contract er mwyn ei wneud yn fwy pwerus wrth annog arferion busnes gwell. Dyna pam yr aethom ati, yng Ngham 1 y broses ddiwygio, i atgyfnerthu strwythur y contract, gan gynnwys addewidion sy'n edrych i'r dyfodol i ysgogi gwelliant i arferion busnes yn y dyfodol a dyddiad ar gyfer adolygu'r cynnydd a wneir yn erbyn yr addewidion hyn.

Rydym wrthi'n adolygu strwythurau i fonitro a hyrwyddo'r cysondeb yn fewnol â busnesau yn y broses o ddatblygu a monitro ein Contractau Economaidd. Fel blaenoriaeth ar gyfer y tymor canolig, rydym yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i roi prosesau ar waith i hwyluso eu cyfranogiad yn y broses o adolygu contractau enghreifftiol. Byddwn yn parhau i fonitro'r broses o roi'r contract diwygiedig ar waith er mwyn chwilio am gyfleoedd i atgyfnerthu ac ymgorffori ei ddefnydd.

**Goblygiadau ariannol**

Dim

**Argymhelliad 18**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn defnyddio'r ysgogiadau gwaith teg sydd ar gael iddi er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar rwystrau i waith teg yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu: gan gynnwys diogelu a gwella tâl ac amodau gweithwyr yn y sector yn sgil pwysau costau byw cynyddol ar weithwyr a chyflogwyr; gwella llais gweithwyr; a defnyddio amodau mewn cyllid grant i fusnesau i sicrhau gwelliannau gwaith teg. |

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Nid dim ond yn y sector preifat y mae lletygarwch, twristiaeth a manwerthu, ond cânt eu nodweddu gan bresenoldeb miloedd o gyflogwyr unigol. Ni fyddwn yn gallu cyrraedd pob un ohonynt gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael i ni, a rhaid i

Lywodraeth y DU ddefnyddio ei phwerau mewn perthynas â hawliau cyflogaeth a chydberthnasau diwydiannol i wella hawliau gweithwyr ac atgyfnerthu'r broses o orfodi'r hawliau hynny. Rydym yn annog cyflogwyr ac undebau masnach i weithio mewn partneriaethau cymdeithasol er mwyn gwella amodau gwaith.

Byddwn yn defnyddio'r Fforwm Manwerthu a Fforwm yr Economi Ymwelwyr i hwyluso'r sgyrsiau hyn mewn partneriaethau cymdeithasol ac i ennyn gwerthfawrogiad o'r cysylltiad rhwng yr heriau recriwtio a chadw staff ym mhob rhan o'r sectorau hyn a'r amodau gwaith a gynigir ganddynt. Byddwn hefyd yn parhau i fod yn glir ynghylch yr hyn rydym yn ei werthfawrogi, yr hyn rydym yn barod i sefyll drosto, a'i wobrwyo yn ein cydberthnasau a'n cefnogaeth i fusnesau yn y sectorau hyn.

**Goblygiadau ariannol**

Byddai angen i unrhyw oblygiadau ariannol gael eu bodloni o gyllidebau presennol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon